LC666

Cynulliad Cenedlaethol **Cymru** National Assembly for **Wales**

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU** **LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Gorchymyn y Byrddau Iechyd Lleol (Trosglwyddo Eiddo, Hawliau a Rhwymedigaethau) (Cymru) 2003**

Mae hyn yn darparu ar gyfer trosglwyddo eiddo, hawliau a rhwymedigaethau i'r byrddau iechyd lleol newydd.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Gwahoddir y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r gwallau drafftio canlynol sydd wedi cael eu cydnabod ar ran y Gweinidog. Ystyrir y dylid cywiro’r rhain drwy orchymyn diwygio cyn gynted â phosibl.

**Erthygl 6**

Dim ond at "eiddo, hawliau a rhwymedigaethau" y mae Paragraff (2) yn cyfeirio. Gallai hyn fod yn gamarweiniol oherwydd er bod paragraff (2) yn amlwg i fod yn berthnasol i bob mater a nodir ym mharagraff (1), dim ond (1)(c) sy'n cyfeirio at "eiddo, hawliau neu rwymedigaethau". At hyn, gan fod paragraff (1) yn cyfeirio at "yr erthygl hon", dylai paragraff (2) gyfeirio at "yr erthygl hon" yn hytrach nag at "paragraff (1) uchod".

**Erthygl 8(1)**

Mae paragraff (1) yn cymhwyso paragraffau (2) - (4) "Os bydd trosglwyddiad...yn gweithredu mewn modd sy'n effeithio'n andwyol ar hawliau unrhyw drydydd parti". Ond yn amlwg, y bwriad yw gweithredu erthygl 8 nid lle y penderfynwyd bod effaith andwyol ar hawliau trydydd parti ond lle yr honnir bod effaith andwyol ar hawliau o'r fath.

**Atodlenni 1 a 2**

Mae pob Atodlen yn cynnwys dau nodyn sy'n cyfeirio at hawliau meddiannu ym Mhreswylfa, yr Wyddgrug. Gan fod colofn 2 yn dynodi, ar gyfer pob nodyn, mai Awdurdod Iechyd Gogledd Cymru sydd â'r hawliau ar hyn o bryd, nid oes unrhyw beth i ddynodi pa hawliau sydd i'w trosglwyddo i Fwrdd Iechyd Lleol Powys a pha rai i Fwrdd Iechyd Lleol Sir y Fflint. Er efallai bod hyn yn cael ei gwmpasu yn y cytundeb y cyfeirir ato yn y Rhaglith, dylid nodi'r rhaniad yn yr Atodlenni gan mai'r Gorchymyn sy'n rhoi grym i'r trosglwyddiad.

**Atodlen 3**

Mae statws y tabl ar dudalen olaf y Gorchymyn yn ansicr. Rhagdybir ei fod wedi'i fwriadu i fod yn rhan o Atodlen 3 ond nid yw'r penawdau yn gwneud hyn yn glir.

**Sylwadau**

**Rhaglith**

Caiff "Atodlen B" ei chywiro i "Atodlen 5B" yn y fersiwn a gyhoeddir.

Dylai troednodyn (a) nodi'r ddeddfwriaeth a ychwanegodd Atodlen 5B at Ddeddf 1977.

**Erthygl 2(1)**

Dylai'r ail a'r trydydd diffiniad a'r pumed i'r seithfed ddechrau â llythyren fach.

**Atodlenni 1 a 2**

Ymddengys fod y rhain yn union yr un fath â'i gilydd. Ar y sail hon, gallai erthyglau 3 a 4 fod wedi cyfeirio at un atodlen.

Mick Bates AC
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

18 Mawrth 2003